Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 10. Rhif 3.] MAWRTH, 1910. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Y Beibl: yr hyn yw a'r hyn nad yw.
Parch. Joseph Wood.
O Fon i Fynwy. Sarnicol.
Congl yr Awen.
Cristionogaeth a Sosialaeth.
Rees Griffiths, Coleg Newydd, Llundain.
Llygaid i weled. T.C.U.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y nis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

J. T., Lerpwl; E. D., Aberdar; J. R. E., Hull; J. M., Llanrwst; T. T., Onllwyn; J. D., Crosgoch.

Ar werth yn Swyddfa'r 'Ymofynydd.'

LLIN AR LIN:

Penodau'n Hanes a Chrefydd Israel,

— GAN Y —

Parch. J. JENKINS, B.A. (Gwili).

Mewn Llian, 2s. Trwy y Post, 2s. 2c.

ROBIN THE NEW STARCH

Reckitt's Blue.

ZEBRA GRATE POLISH.

YR ✿ YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1910. [CYF. X. RHIF 3.

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.

GAN Y PARCH. JOSEPH WOOD.

PENOD III. (Parhad)

CYNWYSIAD Y BEIBL.

MAE yr oll a ddywedwyd eisoes am gamsyniadau yr adysgrifwyr ac amrywiol ddarlleniadau y gwahanol lawysgaifau yn eu cysylltiad a'r Testament Newydd yn wir hefyd am yr Hen Destament.

Gwyddoch mai iaith o gydseiniaid yn hollol oedd yr Hebraeg fel yr ysgrifenid hi ar y dechreu ; hyny yw, geiriau Hebreig wedi eu hysgrifenu heb un lafariad. Y llafariaid oeddynt yn anhebgorol i roddi mynegiad i'r cydseiniaid a ddaethant yn wybyddus i'r bobl trwy gael eu trosglwyddo i lawr o enau i enau. Nid cyn oddeutu chwe' chant o flynyddau cyn Crist y cytunwyd ar y nodau a gyfarwyddant yr efrydydd sut i ddefnyddio y llafariaid, a pha lafariaid i'w defnyddio. Er engraifft, gallasai gair o dair cydsain olygu y peth hwn neu'r peth arall yn ol y llafariad a ddefnyddid ; a barn y darllenydd gyda golwg ar yr ystyr oedd yr unig arweinydd wrth ddefnyddio y llafariaid. Tybiwch fod y Gymraeg wedi ei hargraffu heb lafariaid, a'ch bod chwi yn cyfarfod a gair ag ynddo dair cydsain—"c, l, n." Gallasai olygu "calon," neu "celain" neu "colyn"—Ceisiech gael gafael yn yr ystyr odddiwrth y cysylltiad. Neu tybiwch am air a dwy gydsain ynddo, megis "t, n." Fe allai fod yn "tân," neu "tón" neu "tôn"—ymddibynai yr ystyr yn hollol ar y llafariad a ddefnyddid. Oni welwch sut oedd hyn yn ychwanegu at yr anhawsder o gael cyfieithiad cywir, a sut yr oedd yn ffynonell o liaws o gamsyniadau ? Rhag i mi eich cam-arwain a rhoddi syniad anmhriodol

i chwi, goddefwch i mi ddyfynu engraifft a roddwyd yn ddiweddar gan Proff. Robertson Smith. Mewn un man yn y Beibl dywedir i Jacob, pan ar dranc angau, roddi cynghorion i'w feibion a'i bwys ar ei *wely*. Mewn man arall, wrth ddesgrifio yr un amgylchiad, dywedir fod ei bwys ar ei *ffon*.

Hawdd cysoni y ddau ymadrodd pan gofir mai yr un gair sydd yn yr Hebraeg am *wely* a *ffon*, ymddibyna y gwahaniaeth yn hollol ar y llafariad sydd rhwng y ddwy gydsain. Felly gwelwn mor eang yw y maes i gamsyniadau.

Carwn ychwanegu ychydig eiriau ar Ganon y Testament Newydd. Ystyr Canon yw llinyn mesur—a golyga ar y cyntaf linyn mesur saer, wedy'n daeth i olygu unrhyw safon y gellir barnu pethau wrthi. Canonau celf yw rheolau neu fesurau celf. Canon mewn cerddoriaeth yw darn o gerddoriaeth wedi ei gyfansoddi yn unol a rheol fanol iawn, y felodedd yn ffurfio'r cynllun y trefnir yr holl ranau eraill arno. Derbynia hyd yn nod Canon mewn eglwys gadeiriol ei enw yn yr un modd; perthyn i urdd sydd o dan reol bendant o ddisgyblaeth. Yr un fath gyda llyfrau Canonaidd y Beibl—y Canon—hwynthwy yw y llyfrau sydd a hawl i fod yno, am eu bod yn cydweddu a rheol neu safon neillduol beirniadaeth. Maent wedi eu mesur a'u profi yn lyfrau ysbrydoledig a chredadwy.

Ond yr hyn sydd yn hynod yw na wyr neb beth yw y reol hon na phwy a'i gwnaeth. A yw pob llyfr a ddylasai fod yn y Beibl ynddo? Wel, ni wyr neb. Nid ar unwaith y cytunwyd ar yr holl Ganon. Fe dyfodd fel "Topsy." Edrychwch ar yr Hen Destament. Nid oedd y fath lyfr a'r Hen Destament yn bod hyd 450 cyn Crist. Yn ei ffurf bresenol casglwyd ef yn lyfr gan Ezra a'i ysgrifenyddion. Ond hyd adeg dinystr Jerusalem yr oedd yn amheuus iawn a ddylid cynwys yn y Beibl neu beidio Esther, Llyfr y Pregethwr, Cân Solomon, Ecclesiasticus, y Maccabeaid, ynghyd a llyfrau eraill yr Apocrypha; ond dygwyd y ddadl ar y pwnc hwn i ben trwy i'r Deml gael ei dinystrio a'r Iuddewon gael eu gwasgaru, yr hyn a osododd derfyn ar dyfiant yr Hen Destament.

Yn y modd hwn, heb un arweiniad goruwchnaturiol, y cytunwyd ar ganon yr Hen Destament. Ac yn fy marn i, mae amryw o'r llyfrau a adawyd allan yn fwy teilwng o le yn y Beibl na nifer o'r llyfrau a geir ynddo. Neu cymerwch y Testament Newydd. Gellir dilyn y modd y ffurfiwyd y Testament Newydd yn fwy manwl, ac y mae'r oruwchwyliaeth yn fwy amlwg na chyda'r Hen Destament.

A barnu wrth y parch a delir yn gyffredin i'r Testament Newydd, gellid tybio iddo ddisgyn ryw noswaith yn grynswth o'r nefoedd fel Coran y Mohametaniaid, iddo gael ei ysgrifenu gan y Llaw Hollalluog, neu trwy gyfarwyddyd uniongyrchol Duw. Ond y gwir yw, na chafodd ysgrifeniadau y Testament Newydd eu hystyried am ganrifoedd yn Ysgrythyr o gwbl. Synid y Cristion a oesai yn yr ail ganrif a blinid ef gymaint ag Iuddew gan y dybiaeth fod y Testament Newydd ar yr un safon ac yn gyfwerth a'r Hen Destament. Beibl yr Eglwys Gristionogol—am o leiaf ddau cant o flynyddau ar ol Crist—oedd yr Hen Destament,

a'r Hen Destament yn unig. Credid fod traddodiad o enau i enau yn fwy ei werth na'r holl Epistolau a'r Efengylau oeddynt wedi eu hysgrifenu. Ceir cyfnewidiad, fodd bynag, tua diwedd yr ail ganrif. O gylch y cyfnod hwnw yr oedd rhai o lyfrau y Testament Newydd wedi dyfod i ffafr cyffredinol, yr oeddynt yn dechreu cael eu parchu, eu dyfynu, a'u didoli fel casgliad newydd o ysgrifeniadau ysbrydoledig. Gydag amser gwneid mwy a mwy o ddefnydd o honynt yn yr Eglwysi, a dechreuwyd eu darllen ochr yn ochr a'r Hen Destament. Nid dyn drefnodd hyn. Daeth o hono ei hunan. Damwain, chwaeth, anghenion ymarferol, synwyr da—dyma'r hyn a'i dygodd oddi amgylch. Am ganrifoedd, serch hyny, parhaodd y gwahanol Eglwysi i ddefnyddio llyfrau a ystyriwn ni yn ffugiol ochr yn ochr a'r ysgrifeniadau hyny a wnant i fyny y Testament Newydd. Mae yn ffaith gwerth ei sylwi nad oes braidd gymaint ag un o Dadau mawrion yr Eglwys yn gwneud Canon y Testament Newydd yr hyn yw ef gyda ni.

Bron yn ddieithriad defnyddiant hwy lyfrau a wrthodir genym ni, neu gwrthodant amryw o'r llyfrau a gynwysir yn ein canon ni. Mae Irenaeus, un o'r Tadau boreuaf, yn gwrthod pump o'r llyfrau a geir yn ein Testament Newydd ni—Hebreaid, Judas, Iago, II Pedr, a thrydydd Epistol Ioan, ond gesyd ef i mewn Fugail Hermas. Gwrthoda yr enwog Tertullian y pedair Efengyl, Actau, tri-ar-ddeg o Epistolau Paul, Dadguddiad ac Epistol Cyntaf Ioan. Hyny yw, gwrthoda Hebreaid, Judas, Epistol Cyntaf ac Ail Epistol Pedr, Ail a Thrydydd Epistol Ioan, ac Epistol Iago.

Yn ystodyr amser hwn gwnai pob Eglwys fel y mynai, a bodolai yr anhrefn mwyaf hyd y flwyddyn 332, pan y rhoddodd yr Ymerawdwr Cystenyn awdurdod i Eusebius i wneud casgliad cyflawn o'r ysgrifeniadau cysegredig at wasanaeth yr Eglwys Babaidd. Cynwysai y rhestr yr oll o'r llyfrau presenol oddigerth Llyfr y Dadguddiad. Dyma fel y parhaodd pethau, ac er gwaethaf penderfyniadau Cynghorau, darllenid llyfrau mewn eglwysi nad oeddynt yn y rhestr o gwbl, ac edrychid ar lyfrau eraill gyda chryn amheuaeth. Yr oedd Jerome ac Augustine yn ranedig iawn yn eu barn. Nid yw yr Eglwys Babaidd erioed eto wedi rhoddi derbyniad calonog i'r Epistol at yr Hebreaid. Yr oedd hyd y nod y Protestaniaid yn mhell o fod yn unol gyda golwg ar hawl amryw lyfrau i fod yn y Beibl. Mynent iddynt eu hunain y rhyddid barn i ddweud beth yw Ysgrythyr. "Teflais i" meddai Luther, "bedwerydd Llyfr Esdras i'r Elbe." "Epistol gwellt" y galwai efe Epistol Iago. Maentumiai Erasmus na chafodd yr Epistol at yr Hebreaid, Ail Epistol Pedr, Ail a Thrydydd Epistol Ioan, na llyfr y Dadguddiad eu hysgrifenu gan yr Apostolion; ond ychwanega nad yw efe yn eu cyfrif yn llai eu gwerth o herwydd hyny, oblegyd os oes ynddynt addysg dda nid oes wahaniaeth gan bwy yr ysgrifenwyd hwy. Yn yr un modd, credai Calfin na ysgrifenwyd mo'r Epistol at yr Hebreaid nac Ail Epistol Pedr gan yr Apostolion o gwbl. Mae'n amheus hefyd gyda golwg ar Iago a Judas, ond mae yn eu cymeradwyo am eu bod yn llawn o addysg fuddiol—rheswm da a digonol.

Yn y flwyddyn 1545 gwysiwyd Cynghor Trent gan yr Eglwys Babaidd er mwyn ymdrin ag heresiau y Diwygiad. Yn y Cynghor hwn, ac am y tro cyntaf yn hanes yr Eglwys Gristionogol, daeth y pwnc o gynwysiad y Beibl yn erthygl ffydd a gwae i'r neb a geisiai ei hamheu. Penderfynwyd fod llyfrau yr Hen Destament, yr Apocrypha, a llyfrau y Testament Newydd, fel y maent yn adnabyddus i ni, ar yr un safon, ac yr oedd taflu amheuaeth ar unrhyw un o honynt yn foddion i dynu melldith ar yr enaid. Yn y cynghor hwn nid oedd cymaint ag un ysgolor mawr, nac un duwinydd o blith yr Ellmyniaid. Felly ymddengys mai nodwedd fawr Protestaniaeth oedd gwneud apel at awdurdod y Beibl yn hytrach nag at awdurdod y Pab, ac mai yr Eglwys Babaidd a dynodd allan reolau manwl parthed llyfrau'r Beibl y byddai yn heresi ronc i daflu y gronyn lleiaf o amheuaeth arnynt.

Dyna hanes cynwysiad y Testament Newydd. Dyna'r damweiniau a'r cyfnewidiadau y bu ysgrifeniadau y Testament Newydd yn ddarostyngedig iddynt cyn iddynt gyrhaedd y safle hono o awdurdod goruwchnaturiol ac anffaeledig sydd wedi hawlio lle mor amlwg yn y gyfundrefn iawnffyddol. Yn nghwrs yr holl hanes nid oes genym y mymryn lleiaf o dystiolaeth o fod yr ysgrifenwyr wedi eu tywys a'u goleuo yn oruwchnaturiol er eu cynorthwyo i ddethol y llyfrau priodol, ac i benderfynu pa lyfrau oedd wedi cael eu cyfansoddi yn wyrthiol. Meddienid pobl gan y cymhellion mwyaf amrywiol wrth wneud y detholiad diweddaf; ond ni bu gan ysgolheigiaeth gywir na rhan na chyfran yn y gorchwyl.

Yn mhlith y sawl nad ydynt yn gyfarwydd a'r dull yn yr hwn yr ymdrinir a phynciau'r Beibl yn y llithiau hyn, mae yn bosibl y blinir ac y brawychir rhai pan ddywedir wrthynt nad llyfr anffaeledig yw y Beibl—mai llyfr dynol hollol yw— mai tyfiant naturiol yw, ac nad yw wedi ei ddyogelu rhag camsyniadau yn fwy nag y diogelwyd chwareugerddi Shakespeare, neu ymddiddanion Plato. Ond goddefwch i mi ddweud wrthych nad yw y dull hwn o efrydu yn lleihau dim o werth a phrydferthwch y llyfr. Bum inau unwaith yn credu fel y credwch chwithau, mewn llyfr anffaeledig, ond gallaf ddweud yn onest fod y Beibl yn golygu llawer mwy i mi yn awr pan mae'r gèn wedi syrthio oddiar fy llygaid, a phan y medraf weled y llyfr fel cynyrch dynol nag a olygai pan y credwn ynddo fel llyfr wedi deilliaw yn anffaeledig oddiwrth Dduw. Gorchwyl hawdd yw hi i wybodaeth uwch y presenol i weled fod y gwyr ydynt yn gyfrifol am y Beibl wedi gwneud camsyniadau mawrion a difrifol. Er hyny i gyd, pe byddem ni yn gydnabyddus a'r holl amgylchiadau, synid ni yn fawr, a digon tebyg y byddai genym achos mawr i ddiolch am nad yw y camsyniadau hyn yn fwy lluosog a difrifol. Mae y ffaith fod y llyfrau ydynt wedi eu trosglwyddo i lawr i ni yn sefyll ar ben eu hunain, yn brawf fod deddf fawr wedi bod ar waith yn y Beibl, tebyg i'r ddeddf a eilw y gwyddonwyr yn "ddeddf goroesiad y mwyaf addas," ac wedi cadw ar glawr y gwirioneddau llawnaf o ddoethineb ac addysg Duw. Mae deuddeg can' mlynedd o ymddadblygiad mewn crefydd, ac o dyfiant yn

ngalluoedd moesol ac ysbrydol cenedl wedi ei chynysgaeddu uwchlaw mesur a'r gyneddf grefyddol, wedi rhoddi i ni ein Beibl. Cynwys weddiau, emynau, hanes cynydd moesol, methiantau, deheadau, hunan-fywgraffiad y natur ddynol ar ei hochr grefyddol, o'i mabandod i'w chyflwr perffeithiedig presenol.

GWELLIANT GWALL. — Yn yr erthygl yn rhifyn Chwefror, yn lle "y llythyr at Barnabas," darllener "llythyr Barnabas."

O FON I FYNWY.

V.

"Daw Gwyl Fair a daw Gwyl Ddewi,
Fe ddaw'r adar bach i ddodwy."

NA, paid a newid yr un sillaf o'r ddwy linell uchod, ti gythraul bychan ymyrgar sydd yn preswylio yn annwn y rhodau, a'r llythrennau a'r inc. Felly y dysgais hwynt un prydnawn o Chwefror pan yn disgyn

RHIW MOLYMOR,

neu Moel-lem-oer, yn nghwmni fy nghyfnither lawer iawn o flynyddau 'n ol. "Fe ddaw'r adar bach i *garu*," medd rhai; ond i mi y mae *un wy* yn cynwys holl garu y greadigaeth. "Fe ddaw'r hwyaid bach i ddodwy," medd eraill; ond gwelir ar unwaith fod *adar* yn cynwys holl hwyaid y bydysawd. Myn ereill ysgrifenu Gwyl Dewi; ond pwy feddyliai am ysgrifenu Gwyl Mair? Ac i mi mae Dewi y Cymro yn llawn mor deilwng o'i alw'n Ddewi ag yw Mair y Pabydd o'i galw'n Fair. Heblaw hyn, Gwyl Ddewi glywais gan fy mam; ac ni wyr hi druan ddim os na wyr ei Chymraeg. I mi y mae'r adeg hon o'r flwyddyn yn amser deffro a gobaith newydd. Yn gyntaf daw'r genethod i'r ysgol a'r lili wen fach neu flodyn yr eira yn dusw purwyn ar eu mynwesau; yna gwelaf hwy'n dod a'r mill neu'r fioleden; ac er ys rhai dyddiau y mae blodau mis Mawrth i'w gweled yn eu meddiant; a phe' sydd harddach na ie'nctyd a blodau?

Wrth gwrs, nid yw'r teimladau hyn ond *sentiment;* ond gwn fod bywyd yn gyfoethocach o'r herwydd. Cur fy nghalon yn gyflymach pan welaf y blagur ieuainc ar dorri allan ar frig y llwyni *currants* yn ngerddi y dref fyglyd hon; a llawenhaf yn ddirgel o weled y prennau eirin Mair, a'u canghennau yn ddu gan ystaen mwg a glo, yn blaendarddu yn ffrynt ty bychan y glowr diwyd. *Sentiment* yw, dyna'r oll; ond y mae'n deimlad mor gyssegredig nad hoffwn ei golli fyth; a chredaf nas gwnaf ychwaith.

Y nos o'r blaen cefais yr anrhydedd o dreulio ychydig oriau yn yr un cwmni a seryddwr byd-enwog. Arfaethais dreulio ennyd yn pwyso'r planedau, a rhifo'r ser, ac ymlid y comedau; ond dim o'r fath; amlwg oedd mai hoffusach gan y gwyddonwr mawr oedd chwedleua a'r plant a difyrru ei hun gyda'r rhai bychain. Nid oedd yr athronydd wedi lladd teimlad y gwr hwn; ac ni synnwn ei glywed yntau yn dweyd fod ganddo gariad at flodau heblaw serch at blant. Ond, dyma

Wyl Ddewi

wrth y drws, a chyn i'r llinellau hyn gyrhaedd y darllenydd, bydd ei dathliad, ond odid, wedi myned heibio. Yn y pentref gwledig Cymreig; yn y dref fawr weithfaol ym Morganwg; yn Llunden, ac yn ninasoedd mawrion Lloegr; yma a thraw drwy Gyfandir mawr y Gorllewin; yn Affrica; yn Awstralia; o fro'r binwydden i dir y palmwydd, dethlir Gwyl Sant Cenedlaethol y Cymry.

Pwy oedd Dewi? Pa bryd y blodeuodd? Beth fu ei hanes? Ni wyddis ryw lawer; ond yr oedd yn ddyn da, yn Gristion pur, ac yn Gymro o iaith, os nad o waed. Erbyn hyn nid dyn mo hono, ond *yspryd*—yspryd cenedlaethol Cymru. Ar ddydd Gwyl Ddewi y dethlir pen-blwydd cyffredinol y Cymro. Wrth fwrdd y wledd, p'un ai gwledd o gân neu arlwy o basgedigion breision fyddo, y mae'r genedl fechan Gymreig yn eistedd i lawr i ymfwynhau; i wrando'r gerdd ac i yfed gwin bywyd newydd; i gyfrif blynyddau ei hoedran, ac i ymfalchïo yn ei hieuenctyd; i ddathlu clod arwyr yr oesau gynt, i ogoneddu ei harweinwyr yn y presennol, ac i barotoi'r ffordd i gewri y dyfodol pell.

Sentiment, dyna'r oll. Ond wedi'r cwbl, onid teimlad o'r fath hwn sydd wedi bod wrth wraidd holl symudiadau mawrion y byd? Gwladgarwch Mazzini wnaeth o'r Eidal faluriedig genedl ieuanc a newydd. Cariad at ei hynafiaid yw nerth cenedlaethol Japan heddyw. *Sentiment*, dyna'r cwbl; ond teimlad ydyw sydd wedi gyru'r milwr i enau annwn y cyflegrau; wedi gyru'r dinesydd i newynu'n noeth mewn *garret* gwaeth nag annwn; nid er budd daearol, nid er clod y dyfodol, ond er mwyn serch at "y wlad a'i macco."

Hoff gan bawb o feddwl iach ydyw olrhain pethau yn ol i'w hachosion. Beth pe baem yn ceisio dansoddi tipyn ar gwestiwn y teimlad, o'r isaf i'r uchaf, o'r teimlad anifeilaidd i'r *sentiment* crefyddol? Math ar deimlad ydyw newyn, neu chwant bwyd, onide? Nid oes gan anifail *reswm* dros fwyta; eithr ymbortha am fod newyn yn ei yrru i wneyd hyny. Nid oes gan hyd yn oed ddyn ddigon o synwyr i'w hysbysu am yr amser angenrheidiol i ymborthi, na pha faint i fwyta wedi dechreu gwneyd hyny. Y mae cymeryd lluniaeth yn fater rhy bwysig i'w adael i reswm gwamal dyn; felly mae teimlad o newyn, neu reddf, yn bodoli o'n mewn, ac ni wiw troi clust fyddar i'w llais pan mae natur yn galw drwyddi. Wrth gwrs, nid yw greddf

dyn yn arweinydd anffaeledig mewn mater o fwyta ac o yfed; ond cynghor y meddyg yn aml yw, "Bwytewch ac yfwch yn gywir fel yr ydych yn teimlo y gellwch." Mewn geiriau ereill, "Byddwch yn *true to nature*." Gwelwn, ynte, mai

Llais Rheswm Natur

yw y teimlad o newyn; rheswm uwchlaw ein synwyr amherffaith ein hunain. Ac y mae'n ddyledswydd arnom roddi gwrandawiad i'r llais mewnol hwn; yn wir, y mae'n orfodiaeth arnom i'w wrando, dyledswydd neu beidio. Onid yw bywyd dyn yn dibynnu ar ei ymborth?

Mwy pwysig fyth na bywyd y dyn unigol yw bywyd y dô sydd i ddod. A ydyw natur wedi gadael cwestiwn mor bwysig a hwn i reswm oer y ddynoliaeth? Dim o'r fath beth. Y mae wedi gosod y rhosyn a'r lili ar rudd yr eneth; wedi rhoi perlau yn ei genau a mefus ar ei min; wedi rhoi asur y nen yn ei llygaid a düwch y nos yn ei gwallt; neu liw y cyfnos yn ei threm ac aur y banadl ar ei harlais; a'r oll er mwyn ennyn y *teimlad* o serch yn yr hardd-lanc un-ar-hugain oed. Mor anaml y mae rheswm y rhieni yn concro teimlad y ferch! A pha ryfedd: onid llais anorfod Rheswm Natur sydd yn galw yn ei chalon wyryfol, a gobeithion bywyd i ddyfod yn ymchwyddo yn ei bron? Dywed Oliver Wendell Holmes fod prydferthwch yn golygu mwy na doethineb; gan fod gobaith y dyfodol yn fwy na phrofiad y gorffenol.

Pan na welo mab mwyach flodau prydferthwch ar wyneb merch; pan na saetha llygaid meinwen saethau serch i glwyfo calon llanc; pan dderfydd llais meinwen daro ar glust gwr gyda melusder mwy na thannau telyn seraff; yna daw diwedd ar y byd, a chyll y ddaear ei choron, oblegyd dynoliaeth yw ei choron hi.

Ac ym mheth yr amlygir rheswm anorfod natur yn fwy nag yn

Nghariad Mam?

Onid y teimlad hwn sydd wedi cadw llygad agored nos a dydd ar y mebyn egwan; wedi ei borthi ag ymborth goreu natur; wedi ei wisgo a'r gwisgoedd esmwythaf; wedi ei wresogi a gwres y galon; wedi ef ddysgu i gerdded ac i barablu; wedi dangos iddo ryfeddodau cynta y greadigaeth fawr hon; wedi ei wylio yn ei dyfiant; wedi ei nerthu yn ei oriau gweinion; wedi ei godi pan wedi syrthio; wedi maddeu iddo pan wedi pechu yn ei herbyn; ac wedi aros yn gariad pur tuag ato drwy y cyfan. Pwy fedr ddirnad dylanwad *teimlad* mam ar hanes y ddynoliaeth? Ah, y mae cariad mam wedi gwneyd mwy o ôl ar y greadigaeth na rheswm tad! Paham? Rheswm y Tragwyddol yn arddangos ei hun yn y dynol yw cariad mam.

Esgynwn eto ris, os yw bosibl esgyn yn uwch. Yn nhiriogaeth crefydd, cyferbynir Ffydd a Rheswm. Pan fetho Rheswm brofi bodolaeth Duw, myn Ffydd syrthio ar ei deulin a'i addoli fel ei Thad, yr Hwn sydd yn y Nefoedd. Y mae addoli mor naturiol i ddyn ag

yw bwyta, ac yfed, ac anadlu; myn addoli rhywbeth a ystyria yn uwch nag ef ei hun, pe ond craig neu bren. Gwyddom mai'r math iselaf o ddyn yw'r hwn addola ei hunan. Nid yw Rheswm dynol eto wedi codi'r llen ar y dirgelwch sydd yn ein cylchynu ar bob llaw yn y byd a'r bywyd presennol, ond myn Ffydd dreiddio'r caddug ac edrych ar bethau ydynt guddiedig i lygad o gnawd. Beth yw Ffydd? Onid Rheswm Tragwyddol y cread yn gweithio yn nghalon y ddynoliaeth? Ac onid yw ein rheswm bychan dynol yn ein hannog yn barhaus i roddi ffordd i'r Rheswm Uwch? Yn nheimladau mwyaf nerthol ein bywyd gwelwn yn eglur Reswm Mawr Natur yn gweithio; onid yw synwyr yn ein gorfodi i dybio fod yna Reswm Uwch yn gweithio mewn gwladgarwch a diwygiadau crefyddol?

Nid oes gymdeithas yn bodoli sydd fwy perffaith na

Dinas y Gwenyn.

Ac nid oes wladgarwch mwy na gwladgarwch y creaduriaid bychain hyn. Doed gelyn at ddrws eu ty, ac abertha pob gwenynen ei bywyd yn foddlon er mwyn ei chyd-ddinasyddion oddimewn. Syrth y tad yn farw ddydd ei briodas a'r frenines yn entrych purlas awyr yr haf; oblegyd bydd eisieu ei fwyd ar y plant bychain a enir ar ei ol; ac ysbryd y dyfodol o hyd sydd yn rheoli dinas y gwenyn. Aberthir y cyfan er mwyn yr oes a ddel.

Ystyrir hunan-laddiad yn drosedd yn erbyn cymdeithas ym mron pob gwlad; ac yn ddiweddar y mae Mr. Theodore Roosevelt wedi son am *race suicide* fel trosedd yn erbyn dynoliaeth. Gwelwn fel mai rhesymolder y Ffrancod yn tueddu at gadw i lawr nifer y plant mewn teulu. Nid oes gan eneth fawr obaith am briodi yn y wlad honno oni fydd ganddi waddol dda; ac nis caniateir i swyddog yn y fyddin ymbriodi os na fydd gan y wraig hyn a hyn o arian yn ei llogell. Pa ryfedd fod Ffrainc yn gwelwi wrth weled ei marwolaethau yn 25,000 yn fwy o nifer na'i genedigaethau mewn blwyddyn? Mewn un ystyr, efallai mai'r Ffrancod yw'r bobl fwyaf rhesymol yn y byd; ac wele!

Hunan-laddiad Cenedlaethol

yw'r canlyniad. *Sentiment*—onid y teimlad hwn, gyfaill anwyl, yrrodd dy dadcu i adael tyddyn ei dad ys llawer dydd, pan nad oedd etto ond pedair-ar-bymtheg oed, i ymbriodi a'r landeg Lowri Jones o Glyn-y-Perthi? A mawr y swn fu gan y tad am i'th dadcu beidio ymddwyn yn rhesymol, ac aros am ychydig flynyddau rhwng cyrn aradr ei rieni, a chadw llygad yn agored am ferch a thipyn o waddol ganddi. Pe buasai wedi aros deng mlynedd gallasai fod wedi ennill Miss Olwen Logell Hir o Blas y Coed, a bod yn gyfoethog a di-blant am ei oes? Ie, ie, ond b'le buaset ti, gyfaill anwyl, pe b'ai dy dadcu wedi dilyn rheswm ei dad yn lle teimlad ei galon at Lowri Jones o Glyn-y-Perthi?

Y mae'n dra amlwg erbyn hyn mai *sentiment* sydd yn gyfrifol am ein bodolaeth, un ac oll; ac mae yn ddilys genyf mai cariad sydd yn cadw bywyd mewn cenedl hefyd; ac nid oes gyfoeth ond bywyd, medd Ruskin. "Y wlad gyfoethocaf yw hono sydd yn cynnwys y nifer fwyaf o fodau dynol hapus." Nid tir, na nwyddau, nac aur nac arian yw cyfoeth cenedl, ond *bywyd*. "Gwenynen farw ni chasgl fêl," ac nid yw cenedl farw yn dda i ddim.

Ddydd Gwyl Ddewi, cymer y genedl Gymreig y fantais i ganu telyn y gorffenol, i ganu caniadau y dyfodol, ac i waeddi, gyda llais bythol ieuanc,

"YR WYF YN FYW!"

Y mae teimlad ym mron pob gwir Gymro yn peri iddo waeddi, "Oes y byd i'r Iaith Gymraeg!" er fod hynny'n yn groes i'w reswm cyffredin. Onid Rheswm Tragwyddol Natur sydd yn gwaeddi yn ei galon? Onid o Dduw mae pob bywyd; ac ai da gan Dduw weled cenedl yn cyflawni hunan-laddiad drwy roddi rheffyn aur yr estron yn dŷn am ei wddf gwasaidd? Onid gwell marw wrth geisio byw na chyflawni hunan-laddiad cenedlaethol o'r fath hwn?

Y mae i bob cenedl ei chenadaeth, medd Lowell. Ydyw cenedl y Cymry wedi gorphen ei chenadaeth ar y ddaear? Na, gwelaf Gymru heddyw yn gwthio bywyd ieuanc i fywyd ceidwadol Lloegr, megys yn graddol hollti'n falurion hen sefydliadau pydron y Sais. Y mae

LLOYD GEORGE

wedi profi'n wlad-weinydd mawr am ei fod yn Gymro mawr; oni bai am y tân cenedlaethol Cymreig yn ei fynwes, ni fuasai erioed wedi ysu Senedd-dy'r Saeson.

Brawdoliaeth gyffredinol yn wir! Pwy fedr ddysgu serch at yr hollfyd cyn profi yn gyntaf ei galon ar dân o gariad at fryniau y wlad a'i magodd? Onid caru mam yw y llythyren gyntaf yn egwyddor serch? O garu Cymru hawdd y medraf ddeall cariad yr Ysgotyn at yr Alban, y Gwyddel at yr Iwerddon, yr Ellmynwr at yr Almaen, a'r Montenegrin at ei wlad ddu fynyddig. Cariad yw y dehonglydd goreu, medd rhywun; drwy ddysgu caru Cymru yn gyntaf, y deuir i garu dynoliaeth yn gyffredinol. *Love is blind*, medd y ddiareb. Ni roddwyd mwy o anwiredd mewn brawddeg erioed. Agor llygaid mae cariad, nid eu dallu. Am fod y glaslanc yn gwel'd mwy o ogoniant yn wyneb ei gariadferch nas medr neb arall ei weld, paham y gelwir ef yn ddall? Na, y mae pawb yn ddall ond efe. Rhoddi gweledigaeth mae serch. Y bardd a'r arlunydd sy'n caru natur wêl fwyaf o brydferthwch anian.

Am hyny, tra'r blagur yn ymchwyddo ar gloddiau fy ngwlad, tra gwawr wanlas y gwanwyn yn dechreu tori ar fronydd Ceredigion, tra cwpanau aur blodau mis Mawrth yn siglo yn yr awelon, yn llawn gobeithion haf i ddyfod; minnau gymeraf

ar ddydd Gwyl Ddewi a chanaf eto rai o hen alawon Cymru gynt. Y mae'r ddrychin wedi myned heibio ar fy Ngwalia ; y mae gwanwyn y deffroad yn wyrddlas ar lethrau ei mynyddoedd ; ac arwyddion haf Cymru Fydd ymhob dyffryn ac ar bob bryn.

Efallai fod gwledydd ereill gwell na hi ; ond i mi nid oes le tebyg ar wyneb daer ymhell. A dweded neb a fynno, gwn fy mod i yn well o garu Cymru, a gwn fod Cymru'n well o gariad ei phlant.

Yn y dyfodol pell, pell, pan fo traed yr estron yn sangu y bryniau anwyl hyn ; pan fo ystormydd hanes wedi ysgubo dros yr hen fynyddoedd moelion heb ado gymaint a nodyn o'r hen iaith i gymysgu a cherdd y gwynt ; pan fo Cymro a Chymraeg wedi diflanu mor llwyr a Ninefeh a Babylon ; etto gwelaf yr estron yn rhodio yn nhyner law Traddodiad dros gwm a nant, a hithau mewn llais hiraethus yn dangos iddo fedd Cymro a garodd Gymru â chariad angerddol gynt ; gwelaf yr estron yn tywallt deigryn gan ddywedyd

"Yn wir, un o fannau cyssegredig y ddaear ydyw"

CONGL YR AWEN.

CARIAD YDYW DUW.

Carwn roddi heibio'r syniad—
Mai un digllawn ydyw Duw,
Ac ei gladdu yn ei gariad
Fe na allo fyw.

Ni wna gwg un tad daearol
Byth barhau am yspaid hir,
Mil rhagorach yw'n Tad Nefol
A theilynga'r gwir.

Llef cydwybod yn ei chuddell—
Car Efe'i grwydredig blant ;
Nis gall Cariad lunio dichell—
Nid oes arno chwant.

Beiddiwn ddweyd cyn lleddfu'i ddigter—
Rhaid oedd tywallt gwerthfawr waed ?
Gofyn rheswm a chyfiawnder—
Pam rhown Dduw dan draed ?

CAWN FWY NA'U GWERTH YN OL.

Glan a phrydferth ydyw'r eirlwch
Wisga frigau'r llwyn,
Pan y cenfi'r Haul ei harddwch
Gwna ei ddwyn.

Ffwrdd yr a â'r llwyfan arian
Welir ar y llyn
Er cael drych i wel'd ei hunan
Pryd y myn.

Hoff ydyw gael pethau prydferth
Iddo ef ei hun ;
Ond mae'n rhoi mil mwy na'u cydwerth
Nol i ddyn.

W. Jenkins.

Cwmfelin-boeth.

CRISTIONOGAETH A SOSIALAETH.

I bawb ag sydd yn craffu ar duedd feddyliol yr oes, amlwg yw fod nid yn unig seiliau y ffydd, ond hefyd cyfundrefnau gwleidyddol y byd yn cael eu hastudio mewn yspryd beirniadol a gwyddonol. Mae cyffroad yn y byd gwleidyddol yn ogystal ag yn myd crefydd. Nid rhyfedd fod y ddau gyffroad yn digwydd bron ar yr un adeg, oblegyd hyn yw hanes cyffroadau gwleidyddol a chrefyddol yn ein gwlad. Pan yr ymwregysai gwirionedd crefydd yn mynwesau ein tadau, pan y deuent i ymwybyddiaeth ddyfnach o'u rhwymedigaeth i gyfiawnder yr Efengyl, rhoisant fynegiad i'w hargyhoeddiadau drwy ymdrechion i gyfnewid ffurf-lywodraeth y wlad, a thrwy hyny ddwyn y deyrnas weledig i well cydgord â'r deyrnas anweledig. Ond camsynied fuasai meddwl fod y dyheadau cryfach am gyfiawnder a ddyhunent ambell dro yn mynwesau ein tadau yn codi oddiar gyfnewidiad yn eu duwinyddiaeth. Yr oedd rhyw ychydig gyfnewidiad, mae'n wir, yn niwinyddiaeth y Puritaniaid, ond nid yn nerth y gwahaniaeth athrawiaethol oedd rhyngddynt a'r Eglwys Sefydledig y codasant yn erbyn trais a gormes. Nid eu hawydd am ddarnio delwau, na gwneud i ffwrdd a'r fodrwy mewn priodas achosodd iddynt gymeryd arfau, ond yr awydd am ryddid cydwybod yr hwn a lanwasai eu calonau wrth ddarllen yn syml y Testament Newydd. Nid gwirionedd newydd oedd ganddynt, ond ymdeimlad dyfnach o'r hen wirionedd; nid athrawiaeth newydd ond argyhoeddiad cryfach oedd yn cyfrif am wroldeb y Puritaniaid dros y gwir.

Wrth droi at chwyldroad y dyddiau hyn gwelir fod yn yr eglwys ddwy duedd feddyliol—iawngredded (*Orthodoxy*) a geuddysg (*Heterodoxy*). Nodwedd y naill ydyw dal i fyny dybiaethau y gorphenol yn nglyn a hanfodion Cristionogaeth; nodwedd y llall yw coleddiad o syniadau sydd yn ceisio rhesymoli athrawiaethau crefyddol. Mewn gwleidyddiaeth ceir dwy ysgol yn cefnogi gwahanol ddamcaniaethau yn nglyn a ffurf gwladwriaeth. Deil un blaid y grediniaeth dros ddatblygu y gyfundrefn bresenol, tra yr hona y blaid arall y dylem newid egwyddor y wladwriaeth, ac yn lle cystadleuaeth mewn masnach dylid sefydlu cydweithrediad. Gelwir y naill yn Gyfundrefn Draddodiadol a'r llall yn Sosialaeth neu Gymdeithasiaeth. Gan fod felly ddwy ysgol yn y byd crefyddol ac yn y byd gwleidyddol yn gwahaniaethu mor ddirfawr yn nglyn ag egwyddorion sylfaenol crefydd a gwleidyddiaeth, a chan fod perthynas hanfodol rhwng crefydd a gwleidyddiaeth, mae'n bwysig gwybod beth yw y cysylltiad rhwng y ddwy duedd grefyddol, ar yr un llaw, a'r ddwy ysgol wleidyddol ar y llaw arall.

Rai blynyddau yn ol fe gofir i nifer o arweinwyr crefydd, rhai arferent gael eu cydnabod fel yn perthyn i'r blaid uniongred, newid eu hochr a mabwysiadu syniadau gwahanol, a newydd i ryw raddau, am athrawiaethau crefyddol. Ac wrth wneud hyn tybiasant hefyd y dylasent newid eu plaid mewn gwleidyddiaeth, neu o leiaf, wneud proffes gyhoeddus o berthynas a phlaid wleidyddol. Wrth gyfnewid eu syniadau yn nglyn a chrefydd tybiasant eu hunain mewn awyrgylch wleidyddol newydd, fel pe bae cyfnewidiad yn eu duwinyddiaeth yn goiygu elfen newydd yn agwedd gymdeithasol eu crefydd. Er i'r cyfnewidiad mewn duwinyddiaeth a gwleidyddiaeth gymeryd lle ar yr un adeg yn hanes y cyfryw rai, camsynied yw i unrhyw rai feddwl iddynt yn rhinwedd y cyfnewidiad yn eu duwinyddiaeth gael gwirionedd cymdeithasol newydd yn yr Efengyl-

au. Cawsant, efallai, symbyliad newydd i bwysleisio agwedd gymdeithasol eu crefydd, ond mae meddwl iddynt gael gwirionedd cymdeithasol newydd yn y cyfnewidiad duwinyddol yn golygu fod a fyno athroniaeth fwy nag Efengyl â'r bywyd cymdeithasol. Mae llawer o arweinwyr crefydd wedi cofleidio Sosialaeth heb deimlo angen cyfnewidiad yn eu duwinyddiaeth. Teimlent fod lle i Sosialaeth yn yr Efengyl o safbwynt iawngrededd, a bod yspryd yr Efengyl yn rhoi symbyliad i dori dros derfynau gwleidyddiaeth draddodiadol er mwyn sefydlu cyfundrefn wleidyddol a rydd gyfle i Gristionogion fyw eu crefydd heb orfod ymwadu a'u hegwyddorion i gyfarfod a gofynion y ddaear. 'Does yna'r un athrawiaeth gymdeithasol mewn Cristionogaeth o safbwynt geuddysg nad yw yn bodoli hefyd o safbwynt iawngrededd. Nid yw y gwahaniaeth fodola rhyngddynt yn estronoli eu rhwymedigaeth cymdeithasol, ac ni chynwysa y gwahaniaeth yr agwedd gymdeithasol i Gristionogaeth o gwbl. Pethau damweiniol ac nid anhebgorion Cristionogaeth yw y rhai hyn. Camsynied felly ydyw credu, fel y gwneir yn gyffredin, fod Sosialaeth mewn gwleidyddiaeth, a iawngrededd mewn crefydd, yn wrthwynebol i'w gilydd. Nid angenrheidiol bod yn geuffyddiog cyn y gellir cofleidio Sosialaeth fel egwyddor wleidyddol.

Pan y dywedwn fod Cristionogaeth yn Sosialaidd ni olygir fod Cristionogaeth a Sosialaeth yn cyfledu. Ni olygir nad yw Cristionogaeth yn rhywbeth mwy na Sosialaeth, na chwaith nad yw yn bosibl fod Sosialaeth yn cynwys elfenau nad ydynt yn uniongyrchol yn gynwysedig mewn Cristionogaeth. Ond yr hyn a olygir yw fod Cristionogaeth o leiaf yn Sosialaidd, ac nad yw Sosialaeth yn ddim rhagor na'r hyn geir mewn egwyddor yn Nghristionogaeth. Gall fod elfenau mewn Sosialaeth na cheir mo honynt mewn Cristionogaeth, ond nid ydynt yn anghristionogol o ran hyny; gallant fod yn ddatblygiad o rywbeth geir mewn ffurf o egwyddor yn y Testament Newydd. Wrth drin perthynas Sosialaeth a Christionogaeth rhaid yw cofio mai cyfundrefn grefyddol yw un, ac mai cyfundrefn wleidyddol yw y llall, ac yn ngoleuni y ffaith yna mae i ni ganfod pwynt eu perthynas a'u gilydd. Fel y ceir dwy ochr i fywyd dyn, yr ysprydol a'r fasnachol neu gymdeithasol, ceir hefyd Gristionogaeth a gwleidyddiaeth yn ymwneud a dwy agwedd ei fywyd. Try y ddaear ar ei phegynau ei hun unwaith bob pedair awr ar hugain, a gwna gylch oddeutu'r haul unwaith mewn blwyddyn, ac mae'r ddau symudiad yn cydweithio a'u gilydd. Rhaid wrth dymorau yn ogystal a dydd a nos. Mae'n rhaid cael cydgordiad rhwng bywyd cymdeithasol dyn a'i fywyd ysprydol, ac mae'r cydgordiad yn ymddibynu ar yr egwyddorion benderfynant eu perthynas. Nid oes a fyno'r berthynas hon a duwinyddiaeth fel y cyfryw, na chwaith a chyfundrefniad gwleidyddol, ond mae a fyno a moeseg y ddwy. Er mwyn egluro perthynas Cristionogaeth a Sosialaeth ni raid trin ar dduwinyddiaeth y Testament Newydd, na chwaith ar gyfundrefniad gwleidyddol y "*Fabian Society*." Pe gwneuthid hynyna, ni ddeuid byth i benderfyniad yn nghylch eu perthynas. Perthynas foesol yn unig yw perthynas Cristionogaeth a Sosialaeth, ac i benderfynu eu cydrediad rhaid ymholi i foeseg Cristionogaeth ac i foeseg Sosialaeth. Os gellir dangos cyfatebiaeth eu mhoesaddysg bydd eu cydrediad wedi ei sefydlu, a bydd Sosialaeth mewn gwir gydgordiad a Christionogaeth. Rhaid i bob Cristion sefyll dros foes-addysg ei grefydd a rhaid i bob Sosialydd sefyll dros foes-addysg Sosialaeth. Tra y cytunir yn gyffredin yn nglyn a moes-addysg Cristionogaeth, ceir gwahanol farnau am natur moes-addysg Sosialaeth. Edrychir ar Sosialaeth o wahanol safbwyntiau, a thra y canmolir ei mhoeseg yn ngoleuni ei hamcan mewn gwleidyddiaeth, condemnir hi

yn ei hymwneud a chyfiwr presenol cymdeithas ac yn ei chynlluniau. Amheuir hefyd y gall Sosialaeth sefydlu cymdeithas ar linellau delfrydol ei mhoeseg. Ond heb aros gyda moeseg Sosialaeth o'r gwahanol safbwyntiau uchod ceisiwn wneud rhai nodiadau arni yn gyffredinol.

Saif Sosialaeth dros gyfiawnder. Ffurfiwyd y gyfundrefn wleidyddol bresenol i gyfarfod gofynion buddugoliaeth, heb unrhyw feddwl am gyfiawnder Cristionogol. Ai hi oedd yr oreu allesid ffurfio mewn amser cyffelyb sydd gwestiwn i'r hanesydd benderfynu ; ai hi yw yr oreu i gyrhaedd amcanion uchaf cymdeithas sydd gwestiwn i bob cenedlaeth benderfynu. Hawlia y Sosialydd y rhyddid i newid yr egwyddor ar ba un y saif ein llywodraeth heddyw.

Os dygodd un dyn y ddaear oddiar y werin a'i rhoi yn nwylaw ei gyfeillion, mae'r hawl yn aros i'r werin ei dwyn yn ol i'w meddiant eto. Yn ol pob cyfiawnder eiddo yw'r ddaear, nid i bersonau, ond i genedl fel y cyfryw, ac hunangarwch dyn sydd wedi dwyn daear gwlad o afael y bobl. O'r ddaear ceir angenrheidiau bywyd, ac y mae ei rhoi yn nwylaw unigolion yn golygu lladrad ac anghyfiawnder. Wedi i'r bobl golli eu tir, yr oeddent yn gorfod plygu i ewyllys eu harglwyddi neu golli angenrheidiau bywyd. A gwaeth na hynyna ; yr oeddent yn gorfod cydnabod y deddfau a ffurfiasai eu harglwyddi fel safon cyfiawnder cymdeithasol. Ac yna gorwedd y gwahaniaeth rhwng syniad y Sosialydd a syniad ereill am gyfiawnder cymdeithasol. Nid yw deddf wladol a ffurfiwyd i warchod anghyfiawnder y gorphenol yn safon i gyfiawnder cymdeithasol. Nid yw deddf yn gyfiawn am ei bod yn diogelu dosbarthiad traddodiadol cyfoeth, ond am ei bod yn diogelu ac yn dyrchafu unigolion y genedl. Safon cyfiawnder deddf o hyd yw ei gallu i wella'r byd. Cynwysa'r cyfiawnder uchaf y daioni uchaf a'r daioni uchaf yw'r daioni ddyrchafa'r mwyafrif. Amcan Sosialaeth yw dosbarthiad cyfiawn o gyfoeth y ddaear, nid er mwyn y cyfoeth ei hun, ond er mwyn dyrchafiad dynolryw, ond ceisia ddwyn cyfoeth y byd at wasanaeth pob dyn ac er ei ddyrchafiad. Ni chytuna Sosialwyr yn nglyn a'r ffordd i ddwyn hyn i ben, ond mae cyfiawnder y syniad yn hollol Gristionogol, ac mae'r amcan mor aruchel ac y dymunid iddo fod. Mae'n wir na ddefnyddiodd Iesu ei hun y gair "cyfiawnder" yn yr ystyr roddir iddo heddyw, ond a feiddia neb ddweyd na safodd Iesu dros gyfiawnder?

Saif ein cyfundrefn bresenol ar anghyfiawnder cyntefig, a chydnabyddir y dylid gwella ein deddfau er dyrchafiad dyn. Ond yn hytrach na datblygu yr hen gyfundrefn ceisia Sosialaeth symud yr anghyfiawnder drwy newid egwyddor lywodraethol y wlad, drwy sefydlu cydweithrediad yn lle cystadleuaeth. Mae cydweithrediad mewn cymdeithas yn fwy cyfiawn na chystadleuaeth, oblegyd nid cyfiawnder yw fod y cryf yn byw ar gefn y gwan. Saif Cristionogaeth dros hawliau y gwan fel dros hawliau y cryf. Yn ol Cristionogaeth nid cyfiawn yw sathru y gwan, ac i'r graddau na rydd cystadleuaeth chwareu teg i'r gwan y mae yn anghyfiawn. Yn hyn mae Cristionogaeth a Sosialaeth yn cydfyn'd, eu bod yn ceisio cyfiawnder cymdeithasol i'r gwan yn ogystal a'r cryf. Pan yr estynasai'r Iesu gardod i ddynion, yr oedd yn condemnio y gyfundrefn wleidyddol oddefai i ddynion fod mewn eisiau.

Saif Sosialaeth dros frawdoliaeth. Ceisia Sosialaeth wneud brawdoliaeth yn beth posibl. Heddyw nid yw yn bosibl ond o fewn terfynau, a phan fetha brawdoliaeth gyrhaedd pawb nid yw ond rhanol ac anmherffaith. Sonir llawer am frawdoliaeth yn ein gwlad, ond ar waethaf ein cyfundrefn wleidyddol y sylweddolir brawdoliaeth mewn cymdeithas. Mae natur y wladwriaeth yn erbyn gwir frawdgarwch, oblegyd rhydd symbyliad i ni roi elw o flaen dynion, a buddianau o flaen bywyd. Bernir

dyn wrth yr hyn sydd ganddo ac nid wrth yr hyn ydyw, wrth ei logell ac nid wrth ei galon. Mae masnach ar linellau hunanoldeb, ac os beiddia masnachwr fod yn Gristion tebyg ydyw y try i ryw raddau yn fethiant. "Tros arall" yw cyweirnod Cristionogaeth, ond mewn masnach gwnawn ein goreu yn erbyn arall er mwyn dyrchafiad ein hunain. Os y credwn, a diau genyf y gwnawn, mai drwy golli ein heinioes dros arall y mae i ni ei chael, ai nid buddiol fuasai ceisio gwneud yr elfen hon yn beth posibl yn y byd tymhorol? Mae'n bosibl, wrth gwrs, i ddyn fyw y rhan gyntaf o'i oes iddo'i hun, ac ar ol casglu digon o gyfoeth ar draul llafur ereill—yn onest yn ol syniad masnach am onestrwydd—wedi'n i wasgaru y cyfoeth mewn daioni ar hyd a lled y wlad fel y gwneir gan rai heddyw. Ond a yw bywyd fel yna yn unol a delfryd Cristionogaeth? ac a yw y gyfundrefn wleidyddol gefnoga fywyd o'r fath yn un sydd yn lledaenu brawdoliaeth? Gwna ein cyfundrefn wleidyddol hunanoldeb yn angenrhaid mewn masnach a chymdeithas, hyd nes y cesglir digon o gyfoeth i wneud safle ddaearol yn sicr.

Saif Cristionogaeth yn erbyn pob math o hunangarwch, a chan fod raid wrth angenrheidiau bywyd, dylai cymdeithas fod ar linellau fyddant yn peidio rhoi symbyliad i drachwant am feddianau daearol. Tra pery cyfle a rhyddid i drachwant daearol bydd brawdgarwch yn anmhosibl yn ein gwlad. Os dymuna dyn gystadlu a'i gyd-ddyn mae llawer ffordd i wneud hyny ar wahan i angenrheidiau bywyd. Pe codid cymdeithas i gystadleuaeth mewn celf, mewn addysg, neu gerddoriaeth, elai Teyrnas Nefoedd ar gynydd yn gyffredinol a chawsai brawdoliaeth eangu i derfynau eithaf y ddaear. Ymestyn pob cystadleuaeth at frawdgarwch, ond y gystadleuaeth a bery newyn yn mhlith yr anffodus. Ymddibyna llwyddiant tymorol heddyw ar ddamwain yn fynych, ac mae methiant tymorol wedi troi yn angeu cyn heddyw i lawer un egwyddorol a diwyd. Pe teimlem awydd am ledaeniad brawdgarwch byddem yn barod i gefnogi unrhyw gyfundrefn a wna sicrhau fod angenrheidiau bywyd i'n brodyr uwchlaw ffawd a damwain. Dyma yw delfryd Sosialaeth, ac mae'r gyfundrefn wleidyddol sydd yn amcanu at ddyrchafu dyn uwchlaw ymdrech am fodolaeth, yn ein cario yn mhell ar hyd llinellau Cristionogaeth ac i gyfeiriad brawdoliaeth

Os am sylweddoli brawdoliaeth yn mhlith dynion rhaid yw cario yspryd y teulu i fewn i wleidyddiaeth. Pwy fuasai yn dymuno llwyddo mewn masnach ar draul methiant ei frawd? Pwy sydd heddyw yn ddigon diegwyddor, fel Jacob gynt, i ddwyn oddiar ei frawd ei hun yr enedigaeth fraint? Ychydig gredaf o aelodau yr un teulu fuasai yn gallu gwneud y fath beth. Ond hyn wneir tu allan i'r teulu, ac eto i gyd cydnabyddir gyda Iesu Grist mai brodyr ydym oll.

Ai Cristionogol y wladwriaeth rydd chwareu teg nid i'r offeiriad a'r Lefiad fyned heibio ond i'r lladron archolli eu brawd? Ai nid mwy Cristionogol Sosialaeth a ddywed y dylid gwneud dygiad ymaith yr enedigaeth fraint o afael ein brawd yn waith anmhosibl? Erfyn Sosialaeth yn frwdfrydig am frawdoliaeth. Meddiana werthfawrogiad dyfnach o ddynoliaeth, a saif dros eangach ac aruchelach syniad am gyfiawnder cymdeithasol. Pan y ceir pawb yn llafurio er lles pawb bydd brawdoliaeth yn cael lle i ymeangu yn y byd.

Saif Sosialaeth dros heddwch, dros ddiarfogiad, a thros gyflafareddiad mewn gweithfaoedd ac mewn materion rhyngwladol. Atgas gan bob Sosialydd ryfel o unrhyw fath, a phenderfyna wneud rhyfel yn erbyn rhyfel. Methiant i raddau pell yw yr ymdrechion wneir o dan ein cyfundrefn draddodiadol i osgoi cynen mewn gweithfaoedd a rhyfel rhwng teyrnasoedd. Er y cofiwn gyda balchder ymdrechion Henry Richard, y Cymro, dros sefydlu cyflafareddiad rhyngwladol, mae sylweddoliad yr

egwyddor wedi methu i raddau helaeth, ac ychydig o obeithion sydd y try yr ymdrech yn llwyddiant yn y dyfodol. Gwnaed cynyg gan Ymerawdwr Rwssia i sefydlu heddwch drwy y byd, a gwelir ol ei ymdrech yn Nghywreinfa Heddwch a Rhyfel yn Lucerne, lle yr hongian darlun o Henry Richard fel un o arwyr heddwch, ond methodd yr ymdrech hyd yn oed yn hanes yr Ymerawdwr ei hun. Darllenwn yn yr hanes geir am ddyfodiad Iesu Grist i'r byd fod yr angylion wedi canu "Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear dangnefedd, i ddynion ewyllys da." Dyna oedd yspryd Iesu Grist a cheisia Sosialaeth sefydlu heddwch parhaus fel egwyddor lywodraethol yn mywyd gwladwriaethau y byd

Saif Sosialaeth hefyd dros gydraddoldeb. Gwneir llawer o gamgymeriadau yn nglyn a'r egwyddor hon o eiddo Sosialaeth. Cred rhai fod Sosialaeth yn golygu dosbarthiad uniongyrchol o feddianau y wlad rhwng y bobl, a chredant, a hyny yn hollol gywir, na fuasai y byd yn well mewn canlyniad. Ond yn ffodus ni saif Sosialaeth dros hyn, ac nid oes argoelion fod Sosialaeth erioed wedi cefnogi y fath egwyddor. Wrth gydraddoldeb golyga Sosialaeth gydraddoldeb manteision mewn bywyd. Faint sydd yn methu gwneud cyfiawnder a'u hathrylith oherwyd tlodi boreu oes a diffyg cyfle yn y byd? Faint yn rhagor o athrylith allasai fod yn y byd pe cawsai pawb chwareu teg ar ben ffordd bywyd? Nid bai y plentyn yw tlodi ei amgylchiadau ond bai y gyfundrefn wleidyddol o dan ba un y daeth i'r byd. Mae pob plentyn yn gydradd yn ngolwg Duw, a dylasai pawb yn ol y Sosialydd gael cyfle i ddatblygu a dechreu byw. Mae'n wir fod ymdrechion wedi eu gwneud gan ein llywodraeth i gynorthwyo plant mewn amgylchiadau anffodus, ond ni sefydlir cyfiawnder hyd nes y ceir yr awdurdod yn llaw y llywodraeth i roi yr un chwareu teg i bob plentyn drwy y wlad. Nid yw Duw dderbyniwr wyneb, ond mae'r gwirionedd heb ei ddysgu hyd yn oed yn Mhrydain Fawr, a chredir yn gyffredinol fod rhai plant yn rhagorach yn ngolwg Duw nac ereill. Ffurf ein llywodraeth sydd gyfrifol am y syniad anghristionogol hwn, a goreu po gyntaf y diléir y fath ofergoeledd o'n mysg. Cloddia Sosialaeth o dan wraidd y syniad, ac nid yn unig hyny, ond cynygia gyfundrefn wleidyddol fydd yn gweithredu yn unol a'r syniad Cristionogol am gydraddoldeb dyn. Yn hyn hefyd rhaid dweyd fod delfryd Sosialaeth yn cydfynd a delfryd Cristionogaeth.

Pan y sonir am gynlluniau Sosialaeth codir y gwrthwynebiad na ddyrchefir byth mo'r byd drwy gyfrwng gwelliant yr amgylchoedd. Mae'n wir fod llawer o Sosialwyr yn credu fod gan amgylchoedd ddylanwad cryfach na dim arall ar fywyd cenedl. Mae'n wir hefyd fod arweinwyr Sosialaeth yn y wlad hon yn ddynion digrefydd, fwy neu lai, ac yn Faterolwyr penboeth. O safbwynt Materoliaeth, Sosialaeth efallai yw unig obaith dyrchafiad dyn, oblegyd ceisia wella yr amgylchfyd, a thrwy hyny buro cymdeithas. Os yw barn Materolwyr yn gywir am gymdeithas mae'n wir y dylai Sosialaeth fel cyfundrefn ddyrchafu'r byd, ond mae'n amheus a allesid sefydlu Sosialaeth o safbwynt y fath argyhoeddiad. Nid rhyfedd fod llawer o Gristionogion yn gwrthod Sosialaeth os mai dyna'r safbwynt gymerant pan yn ei hystyried. Ond dylai Cristion edrych ar Sosialaeth o safbwynt ei grefydd, ac os oes gogoniant i Sosialaeth o gwbl o safbwynt crefydd mae i ni ei ganfod. Nis gellir edrych allan ar y byd o uwch safbwynt na'r eiddo Cristionogaeth, ac os oes yna rinwedd yn perthyn i unrhyw gyfundrefn gymdeithasol o safbwynt Cristionogaeth mae i ni ei wel'd. Yn ol Cristionogaeth, yspryd ol yw adnoddau dyrchafiad dyn ac nid materol, ond camsynied o'r mwyaf fuasai meddwl nad oes gan ein hamgylchoedd ddylanwad ar ein bywydau. Os felly, rhaid yw ceisio ffurfio yr amgylchfyd i gynorthwyo

yr adnoddau ysprydol i ymwneud a bywyd y werin. Os oddi uchod y daw nerth y Cristion peidied o ran hyny dibrisio cyfryngau allanol roddant well croesaw i'r nerth o'r uchelder ddisgyn yn ei rym. Os o'r tufewn y tyfa Teyrnas Nefoedd mae'n bosibl er hyny i rywbeth o'r tu allan ei sathru. Rhaid i blanigyn wrth awyr bur yn ogystal a gwreiddyn iach. Mwy ardderchog yw Sosialaeth o safbwynt Cristionogaeth nag un safbwynt arall. Gyda holl adnoddau ysprydol yr Efengyl a dylanwadau aneirif yr Eglwys o'r tu cefn, egyr Sosialaeth y drws i bosibliadau mawrion yn hanes Teyrnas Nefoedd ar y ddaear. Daw llwyddiant Sosialaeth o safbwynt Cristionogaeth yn fwy o sicrwydd, oblegyd ymddirieda ragor yn nhueddiadau goreu bywyd, a rhydd wahoddiad gwell i ddynion ddangos eu cariad a'u brwdfrydedd dros bethau aruchel y byd. Argoelion sydd fod Sosialaeth yn cael gwell derbyniad ar law Cristionogion ; ac y mae eisieu ei thymeru ag yspryd yr Efengyl. Mae amcanion ac egwyddorion amlycaf Sosialaeth yn ddiameu yn hollol Gristionogol, ond angenrhaid yw ei chysylltu ag yspryd yr Efengyl oblegyd ymddibyna dyfodol Sosialaeth ar ei pherthynas a chrefydd Iesu Grist.

Coleg Newydd, Llundain. REES GRIFFITHS.

LLYGAID I WELED.

Mewn llyfr i blant yn dwyn yr enw "Evenings at Home" y mae erthygl ar "Eyes and no Eyes" yn yr hon y rhoddir hanes dau fachgen ar brydnawn o wyliau ysgol yn myned allan ar daith o bleser. Gwahaniaethent yn fawr yn eu chwaeth, eu tymer, a'u hamcan. Pan gychwynasant yr oedd un a'i feddwl yn benaf —os oedd yn meddwl o gwbl—ar gael ffordd rydd, a'i dilyn yn ffyddlawn bob cam, ac yna i ddychwelyd adref yn brydlon wedi gorphen y daith ; tra'r llall, gyda'i lygaid yn agored, a fynai deithio yn hamddenol, fel yr oedd yn gweled rhywbeth o hyd yn llawn dyddordeb ac yn llawn pleser. Blinodd y naill ar gwmni'r llall yn fuan ac ymwahanasant. Mae'r wers yn bwysig. Taith o bleser oedd, nid oedd yr un ddyledswydd na'r un neges neillduol yn galw am frysio. Ond rhyfedd y gwahaniaeth rhwng y ddau fachgen. Yr oedd llygaid gan y ddau, ac nid amhriodol holi ambell waith i ba beth y rhoddwyd ein llygaid i ni? Cwrddwn weithiau ag ambell i forwr sydd wedi bod bron yn mhob parth o'r byd ; ond pan eir i'w holi fe geir na wyr efe ddim am yr oll, oddieithr o bosibl enw y tafarndy yn y porthladd, lle y bu yn ceisio yn ofer i dori ei syched.

Tarawiadol iawn yw geiriau Syr William Collier, diweddar M.P.,— "You will never cure a drunkard by anything that comes out of a bottle You will only cure him by rehabilitating his mind."

AR OL YFED SYCHED SY'

—dyna'r hen ddiareb ; a gwyddom hyd at sicrwydd mai dychmygol yn hollol yw'r syniad fod Alcohol yn gwella'r gallu i weled. Nid oes

ond breuddwyd erioed a fyn actio gwers y penill,—

Cyn i fi yfed nid oeddwn yn gweled
Un ffordd yn y byd i dalu fy nyled ;
Ond wedi i fi yfed yr oeddwn yn
gweled
Digon i dalu a digon yn warced.

Dosparth anhawdd iawn i'w drin yw'r dosparth sy'n gwneuthur duw o'u bòl. Nid ydynt am agor eu llygaid i un pwrpas ymarferol ; ac nid oes modd eu deffro i deimlad o ddyledswydd. Ar adeg etholiad, er engraifft, hwynthwy yw y rhwystr mawr ar lwybr y blaenfynediad ; hwy yw y rag-tag-and-bob-tail sydd yn peri newid yr aelod y naill dro ar ol y llall ; lle mae'r fantol yn troi yn ol fel y bydd y ddiod yn dylifo o un cyfeiriad neu'r cyfeiriad arall. Gwerth y bleidlais i'r rhai hyn yw—Faint o ddiod gant am dani ! Pe edrychid i fewn i lygaid y dynion hyn fe geid yno ddyfnder anolrheinadwy o wagder. Gallwn feddwl eu bod ar y ffordd i sefyllfa

Pysgod Ogof Kentucky.

Nid oes gan y pysgod hyny ddim ond ffurf llygaid. Wedi byw yn yr ogof dywyll am gynifer o genedlaethau, heb y cyfleusdra i ddefnyddio eu llygaid, y maent yn naturiol wedi colli y gallu i weled, neu fel y dywedir—Y maent yn dywyll post ! Rhoddir ei alluoedd i ddyn i'w defnyddio, a rheol natur, oni ddefnyddir hwy, yw amddifadu dyn o'r gallu i'w defnyddio.

Clywsom am rai ysgolion lle rhoddir gwobrwyon i'r hwn neu i'r hon a fedr rhoddi'r cyfrif cyflawnaf o'r hyn a welodd pan allan gyda'u gilydd yn ystod haner diwrnod o rodiana. Arferiad gwerthfawr iawn ; arferiad a wnaiff ddatblygu'r gallu i sylwi, ac i osod y llygaid ar waith fel y mae Natur wedi bwriadu iddynt wneuthur.

Er hyn oll, fe wahaniaetha'r llygaid mwyaf datblygedig. Amrywiaeth geir yma fel yn mhob man arall. Fe ddatblygir llygaid pob un fwy neu lai yn ol natur eu perchen, yn ol yr amgylchfyd y byddant ynddo, ac yn ol yr hyn y byddant yn ymarfer fwyaf ag ef.

Fe wel dyn yn ol y gallu fydd ganddo i weled. Gallwn ddychmygu haner dwsin o ddynion yn edrych allan ar brydferthwch y dyffryn ac oll yn ei edmygu. Eto nid yr un peth fydd y naill na'r llall yn weled. Fe edrych y ffermwr allan ac fe wel lawer fydd yn rhoi pleser iddo, ond yn benaf fe wel y pethau hyny fydd yn ffafriol i ffermwriaeth llwyddianus. Y peth fydd yn tynu sylw y bwtsiwr fydd y cyfleusdra i besgu anifeiliaid. Fel hyny bydd y

gwahanol lygaid

yn dal ar wahanol agweddau—y llygaid yn gweled yn ol y gallu a'r natur y byddant wedi eu donio i weled Y daearegydd, y llysieuydd, y naturiaethwr, nid yr un pethau welant. Cais yr arlunydd fydd dal ar yr oll fel cyfanwaith, prydferthwch yr oll a pherthynas ei ranau y naill i'r llall, fel y gallo ei drosglwyddo ar ei gynfas. A'r bardd drachefn, beth wel efe? O, y mae yna wahaniaeth dirfawr rhwng y naill fardd a'r llall, rhwng bardd y bryniau er engraifft a bardd y gwastadedd. Amrywiant yn ol eu natur cynhenid ac yn ol yr amgylchfyd y dygwyd hwy i fyny ynddo, a chais pob un fydd desgrifio yn ol fel y byddyn gweled. Nid yr un fel y bydd "Mab y Mynydd" yn gweled pethau a'i frawd fardd sydd wedi ei ddwyn i fyny ar lan y mor ; a'r hwn a ddygwyd i fyny mewn hinsawdd poeth, bydd ei olwg yn wahanol i'r brawd a ddygwyd i fyny yn yr hinsoddau oer. Ebe'r hanesydd Americanaidd, "Yr wyf yn meddwl yn well am y storom eira, pan gofiaf hyn, os yn cau corff dyn i fewn, y mae yn dwyn ei feddwl allan." Diolch i Dduw gan hyny am yr oerfel a esyd dyn ar ei eithaf i ddefnyddio ei alluoedd ac felly i'w datblygu.

Watcyn Wyn, neu pwy oedd y bardd fu'n adolygu barddoniaeth Dewi Wyn o Essyllt—bardd y gwas-

tadedd—ac a'i darluniodd fel bardd y pethau cymedrol. Medrai Dewi ddesgrifio'r prydferth, y dillyn, ond ni feddai fel Islwyn ar yr edyn i esgyn at yr aruthrol a'r mawreddog. Chwareuai Islwyn a'r rhai hyny megys a marbles plant bach. Ebe Islwyn,

Fe roddes Natur awen ar bob ban,
Arwrgerdd i bob ton, ac i bob llif
Ryw arlif llawn o ysprydoliaeth ber,
A thaflodd yr awenau dros y byd.

Gwir iawn, ond Islwyn yn unig fedrai eu gweled ; o leiaf ni welai Dewi hwynt. Mae Islwyn yn gweled Barddoniaeth yn cael ei rhyddhau o gadwynau "clec" y cydseiniaid ac fel hyn y cân,—

Mae'n pasio oesoedd fyrddiwn yn ei brys,
Mae'n rhoi Modrwyon Sadwrn am ei bys,
Fel arwydd ei phriodas â'r tragwyddol,
Y pur, y pell, y perffaith, a'r anfeidrol.

Darllener ei "Enaid" er cael golwg ar natur barddoniaeth Islwyn,—

Mae yn pontio'r eigion ser
A drychfeddwl !
Mae yn dringo'r nenau ter
Fel uchelbren bythol draw,
Ac yn plethu eu cyfundraethau
Fel colfenau yn ei law, &c.

GWELEDYDD

yw'r gwir fardd, ac os yn driw i'w natur, darlunia yr hyn y mae'n weled. Gall geiriau R. J. Campbell ymddangos yn hynod. Beth am hyny ! Y pwnc pwysicaf yw, A ydynt yn wir ? Ebe efe,—"There are no untrue doctrines ; there are only inadequate apprehensions of the one eternal truth, which is the love of God." Yr hyn o'i gyfieithu yw—Nid oes y fath beth ag athrawiaethau anwir, nid oes ond canfyddiadau anghyfartal o'r un gwirionedd tragwyddol, yr hwn yw cariad Duw. Swnia'n od ac ar yr ymddangosiad cyntaf o leiaf yn groes i'r gwirionedd. Sylwer ar y gair *inadequate*. Onid yw yn awgrymu fod yr athrawiaeth yn syrthio'n fyr o'r hyn yw'r gwirionedd. Tebyg fod yna wirionedd yn mhob athrawiaeth, ond rhan o'r gwirionedd yn unig sydd yna. Mae'r athrawiaethau'n croesi eu gilydd, ac eto fe all fod yna beth gwirionedd yn mhob un o'r ddau ; ond y mae yna rywbeth arall hefyd. Yn rhinwedd y gwirionedd sydd ynddi y mae pob athrawiaeth yn gallu byw. Nid yw dynion yn fwriadol yn credu celwydd. Yn athrawiaeth y Llwgr Gwreiddiol y mae gwyddonwyr heddyw yn gweled yr hyn a alwant yn *Heredity*, neu etifeddeg.

Pan draddododd Ralph Waldo Emerson ei

BREGETH CHWYLDROADOL

i fyfyrwyr Prifysgol Harvard yn 1838, parodd ddadleu chwerw ; ac nid chwerw chwaith feallai, ond dwfndreiddiol yn sicr. Gofynid iddo am ei resymau. Nid oedd ganddo resymau o gwbl. Yn wyneb yr holion yr oedd mor ddihelp a phlentyn bach.* Ni welai efe fod a fyno rheswm (*argument*) â'r mater. Dyna beth

* Ebe efe, mewn ateb i'r Proffeswr Henry Ware, un o ddynion mawr ei oes, "I could not give account of myself if challenged. I could not possibly give you one of the arguments you cruelly hint at, on which any doctrine of mine stands ; for I do not know what arguments mean in reference to any expression of a thought. I delight in telling what I think ; but if you ask me how I don't say so, or why it is so, I am the most helpless of mortal men. I do not see that either of these questions admits of an answer. * * * I shall read what you and other good men write, as I have always done,—glad when you speak my thoughts, and skipping the page which has nothing for me, &c.

newydd onide! Ni ddeall ei wrthwynebwyr ef. Ceisio wnaeth efe i roddi desgrifiad o'r hyn oedd wedi weled. Proffwyd oedd Emerson—gweledydd (*seer*), ac fel y cyfryw y cyfrifir ef heddyw,—un o broffwydi mawr y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Y mae yna fel hyn

LAWER MATH O WEL'D,—

mae yna wel'd yn anmherffaith fel y dall yn dechreu cael ei olwg, "gwel'd dynion megys prenau yn rhodio," ac nid yn unig gweled prenau, ond y mae'r fath beth a gwel'd gwirionedd, gwel'd cyfiawnder, gwel'd dyledswydd,—gwel'd trwy'r rheswm a'r deall, gwel'd trwy serch a chydwybod, &c. Ond yn y gwraidd un ydynt oll. Da fydd cofio nad yn y llygad mae'r gweled. Nid yw'r llygad ond yn debyg i'r 'spectol, yr offeryn trwy yr hwn y byddwn yn gwel'd Y meddwl sydd yn gwel'd. Yn ngeiriau Epicharmus, un o feirdd Groeg—

Y meddwl wel, y meddwl hefyd glyw,
Am bob peth arall dall a byddar yw!

Y meddwl yw'r "V," a'r "V" sydd yn gweled!

Mi adwaenwn ddyn dall flynyddau'n ol, am yr hwn y clywais un o gyfreithwyr pwysicaf y lle yn dywedyd, ei fod yn gweled mwy ac yn gweled yn mhellach na neb yn y plwyf. Nid gweled y llygad allanol oedd y gwel'd hwn chwaith.

Beth, ynte, feddyliwn ni wrth Weled? Math o ganfyddiad yw, sylweddoliad o'r allanol. Y "V" mewnol yn dyfod i gyffyrddiad â rhan o'i amgylchfyd. Yr oedd

LAURA BRIDGEMAN

yn amddifad o bedwar o'r synwyrau. Y teimlad oedd yr unig synwyr oedd ganddi, ac eto fe ddarfu i'r Dr. Howe gydag amynedd dihafal arwain ffrydiau o wybodaeth werthfawr am y byd allanol i hon drwy yr unig borth oedd yn agored ganddi — porth y teimlad, a throdd yr hyn ymddangosai o'r blaen ond megys talp o gnawd yn unig, yn enaid byw, a fedrai deimlo, gwybod, gwerthfawrogi, mwynhau, &c. Y mae Helen Kellor (ganwyd 1880) yn ddall, byddar a mud, ac eto y mae wedi graddio yn B.A. yn un o brifysgolion yr Amerig, a dywedir fod mwy o "weled" yn ei bysedd hi nag sydd yn llygaid mwyafrif trigolion y byd.

Ebe Emerson: "Pan fo gan Feistr y Bydysawd bwyntiau i'w cario allan yn ei lywodraeth, mae yn gosod argraff o'i ewyllys ar feddyliau dynion." Onid dyna fel y bu yn hanes

COLUMBUS?

Ymddengys fod y Gorllewinfyd megys wedi ei argraffu yn ddwfn ar ei feddwl yn hir cyn iddo gychwyn ar ei fordaith nodedig yn 1492, dan nawdd Ferdinand ac Isabella. Yr oedd wedi ei gwbl feddianu gan y syniad hynod am Wlad y Gorllewin. Anhawdd i ni heddyw ddychymygu ystyr anturiaeth o'r fath. Ni wyddai neb eto fod tir yn y cyfeiriad hwnw, ac ni wyddai neb ystyr y geiriau—Pen draw'r Byd. Nid rhyfedd fod y dwylaw ar y llong mewn braw ac yn bygwth terfysg; ond myn'd, myn'd, myn'd, fynai Columbus er pob gwrthwynebiad; a phan y mae pawb ond efe wedi eu llwyr orchfygu gan anobaith,—

Wele, maent yn dechreu teimlo
Peraroglau'r gwledydd draw,

ac wele fyd newydd yn cael ei feddianu.

Yn debyg hefyd y bu yn hanes

JOSIAH WEDGWOOD,

y crochenydd enwog (1730-95) — tadcu Charles Darwin—yr oedd yntau wedi gweled, â llygad ffydd wrth gwrs, a hyny draw yn mhell, y llestri pridd y gweithiai wrthynt, wedi eu gwisgo â gwisg newydd ddysglaer; a dyna fe'n union yn ymosod ar y

gorchwyl i geisio sylweddoli ei ddychymyg. Am wythnosau, am fisoedd, ie am flynyddau rai, mae'n dal ati, yn treio ffordd hyn, yn treio ffordd arall, yn gwario ei amser a'i arian, yn haner newynu ei briod a'i blant—y weledigaeth o hyd yn y golwg ac yn ei hudo'n mlaen, fel nad oedd modd ymryddhau oddi wrth ei swyn. Mae'r defnydd tân i barhau'r ymchwil yn darfod, ac yn haner gorphwyllog wele fe'n dechreu llosgi'r celfi yn y ty ; ie'n wir, dacw'r *chest of drawers* yn myn'd ! Ceisier dychymygu teimlad ei briod y pryd hwn. Ond Hei-ho ! Dacw rywbeth o'r diwedd wedi digwydd. Y mae pen y daith yn y golwg, ac fel Archimedes gynt ar ol enill gwobr y brenin Hiero, fel Cyrus a'i ddeng mil milwyr ar ol taith flinedig yn cael golwg ar y môr, fel Columbus yn gweled y tir newydd, y mae'r galon yn llawn llawenydd. O hyny allan yn ngweithfa Etruria, yn lle llestri pridd, fe droir llestri *porcelain* allan, neu fel y dywedwn ni yn y cyffredin—llestri China Ac hyd yn oed y dydd heddyw, y mae'n debyg gydag Edison a llawer un arall, gallant ddywedyd gyda Phaul, —Angenrhaid a osodwyd arnaf.

Sylwer yn fanwl ar eiriau Virgil, bardd Rhufain :

Un Bywyd red trwy'r Cread maith i gyd,
Un Yspryd, eiddo'r Mwr, y môr, a'r byd ;
Ehediaid nen, ymlusgiaid daear lawr,
Yn nghyda holl breswylwyr dyfnder mawr,
Pob ffun i'r unrhyw Feddwl ufuddhâ,
Ac yn yr oll un Enaid doeth a da !

Ie, sylwer—Un Bywyd, un Yspryd —un enaid doeth a da, a hwnw yn llenwi pob man â'i bresenoldeb a phob amser â'i barhad ! Meddyliwn fod ffynon y dirgelwch rywle yn y cyfeiriad hwn. "Goruwch oll, a thrwy oll, ac ynoch oll" ydyw geiriau Paul ; nid yw efe yn ystyried, fel y gwna rhai, fod yr "yn"—yr *immanence*—yn cau allan y "goruwch" —y *transcendence.* Ymddengys fel pe byddai y ddau yn wir i Paul. Defnyddia Emerson

Y GAIR "OVERSOUL"

i'r un perwyl, dybiwn ; nid i awgrymu fod yr "Over" yn lleol, yn allanol ac ar wahan i'r byd, a'r "Soul" yn byw mewn rhyw balas mawreddog yn entrych y ffurfafen. Deil yr Enaid, yr Oversoul mawr berthynas tebyg â'r byd ag a ddeil enaid dyn â'i gorff. Nid perthynas allanol yw fel perthynas yr oriorydd a'r oriawr, ond perthynas mewnol mwy tebyg i berthynas bywyd a'r llysieuyn. Nid yni dall wedi ei garcharu yn yr Ollfyd yw, heb fedru gwneuthur dim o hono ei hunan, ac heb wybod dim beth sydd yn myned yn mlaen. Dyna fyddai Holl-ddduwiaeth—Pantheism. Mewn gair, fel y dywed R. J. Campbell, Duw yw Hunan yr Ollfyd, a gwyr yr oll am dano. Os felly, yr ydym bawb mewn cyffyrddiad âg Ef pa un a fyddwn yn ymwybodol o hyny neu na fyddwn—in touch with the Infinite !

Ond eto, i beidio anghofio,

GWELED YW'R TESTUN,

a thestun rhyfedd yw o'i olrhain ar hyd ei wahanol ganghenau. Math o weledydd yn arwain y baban at y fron, nad yw erioed wedi cael golwg arni, nac erioed wedi *gwybod* dim am dani yn flaenorol ; ac yn peri i'r cywion hwyaid ruthro i'r dwfr na welsant erioed o'r blaen, a hyny er dychryn ofnadwy i'r iar a'u magodd ; a'r wenynen, beth am dani hi ? Ebe naturiaethwr enwog, Ni alla' i byth edrych ar y wenynen yn adeiladu ei diliau mêl, na fydda' i'n meddwl fod yna Rywun y tu cefn, a'i fys yn cyfarwyddo'r symudiadau ! Ac onid naturiol y gofyniad, Ai yn y gog a'r wenol, ynte yn rhywle arall y mae'r gweled pan y cychwynant yn y gwanwyn a'r hydref ar eu taith anhyffordd i bellderau daear ? Fe sonia rhai heddyw am Synwyr Cyfeiriol—Sense of Direction—peth na chlywyd son am dano hyd yn ddiweddar,

Feallai fod yna rywbeth o'r fath yn bod, ond sut mae egluro? Fe gludir ei mewn cist cauedig driugain milldir gyda'r tren, a phan y gollyngir ef yn rhydd, fe red ar ei union yn ol i'w hen gartref, er na fu erioed y ffordd hono o'r blaen. Mor wir yw geiriau Shakespeare :

There are more things in heaven and earth
Than are dreamt of in thy philosophy, Horatis !

Feallai na ddylwn i ddim dwyn y sylwadau cymysglyd a digyswllt hyn i derfyn heb gyfeirio at un math arall o "Weled" sydd yn cael cryn lawer o sylw y dyddiau hyn, sef eiddo'r

CLAIRVOYANT,

y dyn sydd yn gallu—wel, y mae'n anhawdd dywedyd, ond ceisiwn egluro fel hyn : (1) Meddyliwn, a dywedir y gall ddarllen ein meddwl (2) Ysgrifenwn, a gall ddarllen beth fyddwn wedi ysgrifenu. Er engraifft, clywsom am weinidog Undodaidd yn nghanol y dorf yn ysgrifenu ar damaid o bapur ac yn gosod y papur yn ei boced, a'r Clairvoyant oddiar y llwyfan yn mhell oddiwrtho yn adrodd y geiriau ysgrifenwyd. (3) Rhown enghraifft wahanol eto. Traddodwyd darlith yn ddiweddar mewn capel Undodaidd, y gweinidog yn y gadair. Ar ddiwedd y ddarlith, dyna fenyw ddieithr o ganol y gynulleidfa, yn myned i fyny at y cadeirydd, ac yn dywedyd wrtho ei bod yn gweled hen wraig wrth ei ochr tra parodd y ddarlith. Rhydd ddesgrifiad manwl o honi, a chyffesa'r cadeirydd ei fod yn ddarlun cywir o'i fam oedd wedi marw er ys amryw flynyddau ! Fe ddywedir fod ysprydion yr ymadawedig yn weledig weithiau i'r Clairvoyant.

Ac eto un math arall o weled, ac yna ni a derfynwn—y gweled trwy ffydd. Mae gofyn i hwn hefyd gael ei feithrin. Darllener penod Gwroniaid y Ffydd—Hebreaid XI. Y mae'r gweled hwn yn ffynonell llawer o gysur. Trwy ffydd, Noe, wedi ei rybuddio gan Dduw am y pethau nis gwelsid eto, &c. Ffydd yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio, a sierwydd y pethau nid ydys yn ei gweled. Cofiwn am y Cwmwl Tystion sydd yn ein gwylied, a rhedwn ein gyrfa yn ffyddlawn.

Duw, dyro ffydd i ymlid bant
'Ramheuon sydd yn blino'th blant,
A help i wel'd a golwg glir
Ardaloedd dedwydd Canaan dir.
Fel Moses gynt, pe gallem ni
Ond gwel'd y wlad addewaist Ti,
Nid ymchwydd mor, nid angeu caeth
A allai'n troi oddiar y traeth.

T.C.U.

GOBAITH YN NUW.*

Er mor eiddil-ydwyf, Arglwydd,
Mae fy ngobaith ynot Ti ;
A phan deimlaf dy drugaredd
Nid oes dim yn drech na mi ;
Cwyd fy meddwl uwch pob rhwystrau
Gwenaf ar bob tymestl gerth ;
Dy dosturi yw'm amddiffyn,
A'th dynerwch yw fy nerth.

Rho im' deimlo fod dy gariad
Yn gorchfygu'm pechod oll,
Ac fod rhin dy iachawdwriaeth
Yn fy meithrin yn ddi goll ;
Dena'm enaid atat beunydd,
Pura'm calon, gloywa'm ffydd,
Nertha'm gwendid yn yr ymdrech
Nes im' ddod o'm rhwymau'n rhydd

JOHN OLIVER, LLANFYNYDD, 1838—1866.

* "*Cerddi Cystudd*," tud. 134.

MARWGOFION.

IONAWR 5, Mrs. Anne Davies, Porth, Pontypridd. Yr oedd yr ymadawedig yn ferch henaf i'r diweddar Thomas a Mary Thomas, Llwynrhydowen, a chyn ei symud i Forganwg mynychai gapel Pantdefaid. Yr oedd yr aelod henaf yn eglwys y Bedyddwyr yn Porth, ac iddi air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun. Gwasanaethwyd ar achlysur ei chladdedigaeth gan ei gweinidog, a dygodd dystiolaeth uchel i gymeriad cristionogol yr ymadawedig, yr hwn oedd yn cael ei nodweddu gan ffyddlondeb a charedigrwydd. Gadawodd briod a mab i alaru ar ei hol. "Bydd ffyddlon hyd angau a mi a roddaf i ti goron y bywyd."

IONAWR 22, yn 74 mlwydd oed, yn ei lety, yn nhŷ Mr. a Mrs. Thomas Ayres, Trebanos, Edward Lewis. Er wedi cyrhaedd oedran addfed iawn fe ddaeth yr alwad ato yn gynt nag y meddyliodd llawer. Bu yn ffodus mewn iechyd da drwy ei oes faith. Bu yn aelod o eglwys Gellionen am flynyddau meithion. Rhagflaenodd ei briod ef er yn agos i bedair blynedd. Claddwyd y Mercher dilynol yn mynwent yr Alltwen. Pregethwyd gan y Parch. Gower Richards, Gosen, Trebanos. Codwyd y cynhebrwng a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. W. Alfa Richards. Caffed y plant a'r perthynasau nerth i ddal o dan eu cyfyngder blin.

CHWEFROR 6, bu farw William Thomas, Pantyronen, ger Llanwnen, yn 85 oed. Ymaelododd yn Nghapelygroes, pan yn ieuanc, cyrhaeddai ei aelodaeth yn ol dros driugain mlynedd. Am ran fawr o'r tymor hwn gwasanaethodd fel diacon: parhaodd yn y swydd hyd y diwedd, er ei fod wedi trosglwyddo y rhan ymarferol o'r gwaith er's tipyn o amser i arall. Fel aelod ac fel swyddog bu yn ffyddlawn iawn, a gwelir ei le yn wag am gryn amser. Gadawodd ddau blentyn ar ei ol—un mab yn faelfáwr yn Mhenybont, a merch yn yr Amerig. Claddwyd ei weddillion y dydd Mercher canlynol yn Nghladdfa Capelygroes, a gwasanaethwyd gan y gweinidog.

CHWEFROR 9, yn 77 mlwydd oed, Mrs. Anne Jones, Old Shop, Rhydowen, a gweddw i'r diweddar Mr. James Jones, gynt o Drenewydd, Llwynrhydowen. Cafodd yr ymadawedig gystudd maith a chaled, a chafodd bob tynerwch a gofal gan ei merch, lle y cartrefai. Gadawodd yr ymadawedig ferch, tri mab ac ŵyrion mewn galar o'i cholli. Claddwyd yr hyn oedd farwol o honi y dydd Llun dilynol yn mynwent Pantdefaid. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. E. O. Jenkins, a P. H. Lewis (A.), Brynteg. Pregethwyd yn y capel gan y Parch. T. Arthur Thomas, a gorphenwyd ar lan y bedd gan y Parch. John Davies, Alltyplacca.

CHWEFROR 15, yn 14 mis oed, Rachel Ellen, merch fechan Mr. Evan Jones, Lodge, Berthlwyd, ger Pantdefaid. Yn y rhifyn diweddaf y buom yn cofnodi marwolaeth ei mam, ac ni fu'r fechan hon ond ychydig cyn ei chanlyn. Claddwyd yn Pantdefaid y dydd Iau dilynol, y Parch. T. Arthur Thomas yn gwasanaethu.

AWR ANGEU.

Awr Angeu, nid oes rhyngom—a hono
Haner feddyliasom;
Rhyw hwyr drwg yw yr awr drom
Wahana bawb o honom.—*Eben Fardd.*

MANION AC HANESION.

GRAIG, LLANDYSSUL. — Dydd Calan anrhegwyd deiliaid Ysgol Sul y Graig, gan gyfeillion y lle, a gwledd ragorol o de a blasusfwyd o'r fath oreu yn Neuadd Gyhoeddus y Porth Hotel. Yn yr hwyr cafwyd cyngherdd campus a sylweddol a chymerwyd rhan ynddo gan aelodau'r Ysgol Sul ac esgorodd eu hymdrechion ar lwyddiant anarferol.

GRAIG, GELLIONEN—Hyfrydwch genym allu cofnodi fod yr achos yn flodeuog a llewyrchus dros ben, yn ngwersyll henafol Gellionen. Y mae rhagor nac un llwybr yn arwain tua theml gwirionedd. Llwybr ardderchog iawn ydyw llwybr diwylliant a pherffeithiad talent; ac y mae câd gref o blant yn codi i fod yn gedyrn i'r achos a'r filwriaeth grefyddol yn y lle hwn—y rhai a ddyfal droediant y llwybr a nodwyd.

NOS Sadwrn, Ionawr 8, yn ysgoldy newydd y Graig, cafwyd cyfarfod adloniadol da iawn, ac aeth pawb yn fach a mawr, drwy eu gwaith yn rhagorol. Cyfeiliwyd gan Mr. J. E. Hopkin. Cipiwyd y wobr darllen ar y pryd gan Oscar Bowen. Hefyd, nos Sadwrn, Ionawr 16, cafwyd cwrdd adloniadol arall, dan arweiniad Mr. J. J. Williams, a chafodd pawb y mwynhad mwyaf dymunol.

PRYDNAWN Nadolig, yn nghapel y Graig, dan nawdd lywyddol Mr. John Hopkin, cafwyd cyngherdd fuddiol ac adeiladol. Mwynhawyd unawdau a chwareuadau ar y *Phonograph* destlus, o eiddo Mr. John W. Bowen. Hefyd, rhoddwyd *Xmas Tree* i'r plant. Diolchir i'r boneddigesau a'r boneddigion fu yn dwyn y baich i gael y gwaith drosodd mor glodadwy. Cawd cwrdd eto, nos Sadwrn, Ionawr 22, yn yr un lle. Arweiniwyd gan Alfa. Perdonwyd i'r cantoresau a'r cantorion gan Mr. J. E. Hopkin. Daeth Mr. John W. Hopkin a'r *Phonograph* gydag ef, ac yr oedd yn ardderchog.

ETO, nos Sadwrn, Chwefror 5ed, cynhaliwyd cwrdd adloniadol arall yn ysgoldy newydd y Graig, pan oedd Alfa wrth y llyw, ac yn cadw y llong i deithio yn ddiogel. Y goreu yn y darllen ar y pryd i blant oedd Oscar Bowen. Testyn yr araeth oedd "*Hualau*." Cwrdd da. Melus, moes, eto. Yn ystod y gauaf, bwriedir cynal y cyrddau adloniadol hyn bob pythefnos, ac os bydd i'r plant barhau, fel yn bresenol, gellir sicrhau fod maes gwyn yn eu haros bob yr un. Eto, hyderwn y gwna gwahanol deuluoedd yr eglwys eu goreu i helpu y plant ar yr aelwyd gartref, yn hytrach nag ymddibynu ar unigolion yn ormodol. Llawer a ddichon tad a mam, brawd a chwaer, i gynorthwyo planhigion gweinion gardd.

DYWEDIR fod yr Anghydffurfwyr—Bedyddwyr, Anibynwyr a Phresbyteriaid—ar ol pasio Deddf Goddefiad (1689) yn adeiladu eu capelau o ddwyrain i orllewin, gan ddilyn ffasiwn yr Eglwys. Pam, tybed?

PAN ddangoswyd Llyfr Gweddi un o'r capelau Undodaidd yn America i un o'r Arglwyddi Seisnig oedd yno ar ymweliad, dywedodd Meilord wrth y gweinidog—"yr wyf yn deall mae ein Llyfr Gweddi ni wedi ei ddyfrhau (watro) yw." "Nage," ebe'r gweinidog, "wedi ei olchi."

DR. PRIESTLEY.—Dyddorol yw'r ffaith, a theilwng i'w choffa, i'r Parch. Charles Hargrave, M.A., dydd Sul, Chwefror 20, (*Hospital Sunday*) ddarllen pregeth yn y Capel Undodaidd yn Leeds allan o'r ysgrif wreiddiol, a draddodwyd cant a dwy a deugain o flynyddau'n ol gan Dr. Priestley yn yr un capel. Pregethodd i helpu'r *Infirmary* oedd newydd ei sefydlu. Y testun oedd y Samaritan Da. Cafwyd y bregeth, gyda dwy eraill, oddiwrth Miss Wainwright, orwyres i Dr. Priestley.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

LLYWYDD :—Y PARCH. LEWIS WILLIAMS, RHYDYGWIN.
IS-LYWYDD :—Y PARCH. D. G. REES, PENYBONT.

CYNHELIR

CYFARFODYDD ❀ CHWARTEROL

... YR UCHOD YN ...

RHYDYGWIN

Ar ddyddiau Mercher ac Iau, Mawrth 30 a 31.

Gwasanaeth nos Fercher am 6.30, a dydd Iau am 10.30, 2, a 6. Y pregethwr apwyntiedig yw y Parch. D. G. REES, Penybont. Cesglir yn mhob oedfa. Cyferfydd Pwyllgor y Gymdeithas boreu dydd Iau am 9, pryd y disgwylir i gynrychiolwyr o'r eglwysi a'r gweinidogion fod yn bresenol. Estyna'r gweinidog a'r gynulleidfa groesaw gwresog i bawb fod yn bresenol.

Bydd cyfleustra teithio o orsaf Llanbedr i Temple Bar gyda'r Van a'r Motor sydd yn cyfarfod *trains y prydnawn* ; gweler y *Railway Time Table.*

T. A. THOMAS, Ysgrifenydd.

ORIEL COLEG CAERFYRDDIN.

O DAN OLYGIAETH

DR. E. PAN JONES, M.A.,

YN CAEL EI GYNORTHWYO GAN Y

Prifathraw W. J. EVANS, M.A., ac ereill.

Cynwysa hanes yr holl Fyfyrwyr, o bob Enwad, fu yn y Coleg o 1792 hyd 1899, gyda 271 o Ddarluniau Athrawon a Myfyrwyr.

Mae Byr-Gofiantau i'r oll o'r Myfyrwyr Undodaidd wedi eu hysgrifenu yn Saesoneg gan y Prifathraw Evans. . .

284 o DUDALENAU CROWN QUARTO, WEDI EI RWYMO MEWN LLIAN HARDD } **Pris, 7s. 6c. ; cludiad yn rhad, 7s. 11c.**

Gyrer yr Archebion i'r Cyhoeddwyr—

Joseph Williams & Sons, Swyddfa'r 'Tyst', Merthyr.

CHRISTR. THOMAS & BROS., Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS. & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c,

HARRY COYSH, FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Economy and Refinement applied to everything for the Furnishing and equipment of the Home.

Catalogue, Estimates or Special Designs, Free of Charge.

INTERIOR DECORATING
a Speciality.

Ben. Evans & Co.

SWANSEA. LTD.